# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Ebrill 2024

Amser: 09.30 - 11.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13865

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Jane Hutt AS, Trefnydd a'r Prif Chwip<br>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru<br>Gareth Davies, Swyddfa Archwilio Genedlaethol<br>Lee Summerfield, Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Catherine McKeag (Rheolwr y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion) |

## Rhag-gyfarfod preifat / Cofrestru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS mewn perthynas ag itemau 4-6 a 10.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar ail gyllideb atodol 2023-24 – 18 Mawrth 2024

2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 19 Mawrth 2024

2.3 PTN 3 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Rhagor o wybodaeth am argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25 - 19 Mawrth 2024

2.4 PTN 4 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Ymateb i argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 20 Mawrth 2024

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad – 19 Mawrth 2024

2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) – 19 Mawrth 2024

2.7 PTN 7 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) – 8 Ebrill 2024

2.8 PTN 8 – Llythyr ar y cyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Cyllid: Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon)

**2.9 PTN 9 – Llythyr gan Philip Rycroft: Gwybodaeth ychwanegol am Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol – 11 Ebrill 2024**

**2.10 PTN 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – 11 Ebrill 2024**

**2.11 PTN 11 – Ymateb gan yr Aelod sy'n gyfrifol i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – 15 Ebrill 2024**

## 3 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am ei ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol gan Gareth Davies, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; a Lee Summerfield, Cyfarwyddwr Ymchwiliadau, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

3.2 Cytunodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i baratoi nodyn am y canlynol:

- Gwybodaeth am y diffygion sy'n wynebu Byrddau Iechyd yn Lloegr a gafodd eu dileu gan Drysorlys EF.

## Egwyl

## 4 Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) gan Jane Hutt AS, Y Prif Chwip a’r Trefnydd, Llywodraeth Cymru; a Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dogfennau ategol sy'n ymwneud â'r eitem hon.

## 9 Cynnig i gyfarwyddo’r Pwyllgor Cyllid ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9.1 Trafododd y Pwyllgor y papur eglurhaol a nododd y cynnig.

## 10 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26: Y dull gweithredu o ran ymgysylltu

10.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y dull gweithredu o ran ymgysylltu mewn perthynas â’r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.